**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU** |
| **SUBJECT:** | **PWLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU - DYDD IAU, 11 CHWEFROR 2021 DYDD IAU, 11 CHWEFROR 2021** |
| **REPORT OF:** | |

---

PRESENT:

Councillors J. Holt (Is-gadeirydd)
D. Bevan
M. Cook
M. Day
L. Elias
J. Hill
C. Meredith
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
T. Smith
B. Summers
A. Williams

WITH:

| |
|---|
| Mr. Alun Williams (Aelod Cyfetholedig) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |
| Michelle Jones (Swyddog) |
| Gavin Metheringham (Swyddog) |
| Claire Gardner (Swyddog) |
| Joanne Sims (Swyddog) |
| Liz Thomas (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cadeirydd, y Cynghorydd H. Trollope, a'r Cynghorydd D. Wilkshire.<br><br>**<u>Aelod Cyfetholedig</u>**<br>T. Baxter | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>COFNODION PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion.<br><br>**<u>DIWEDDARIAD LLAFAR – PANDEMIG COVID-19</u>**<br><br>Ar gais y Cadeirydd, rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg ddiweddariad llafar ar ymateb y Gyfarwyddiaeth Addysg i bandemig COVID-19. Mae dau ddiweddariad strategol; mae'r cyntaf yn gysylltiedig â Llythyr Adolygiad Thematig Estyn. Roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Estyn gynnal adolygiad o sut mae cynghorau wedi cefnogi ysgolion ers dechrau pandemig Covid-19 yn cwmpasu'r cyfnod mis Mawrth i fis Hydref 2020. Cyflwynir y Llythyr, drwy adroddiad, i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn. Bu adborth adeiladol gan y rheoleiddiwr yn gyffredinol gyda phedwar maes o arfer nodedig yn cael eu dynodi, yn cynnwys cydweithio cryf ar draws yr Awdurdod Lleol, yn neilltuol y ffyrdd yr oedd y Cyngor ac ysgolion, wedi gweithio mewn modd gydlynus, dorfol a cholegol. Roedd cydnabyddiaeth o'r gefnogaeth fuddiol i ddisgyblion bregus gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a chydnabuwyd bod gwaith cryf gan Wasanaethau Ieuenctid yr Awdurdod Lleol a defnydd effeithlon o adnoddau TGCh.<br><br>Yr ail ddiweddariad strategol allweddol oedd bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y dylai disgyblion Cyfnod Sylfaen gael | |

| | | |
|---|---|---|
| | dysgu wyneb i wyneb yn dilyn yr hanner tymor o 26 Chwefror 2021. Roedd y Cyfarwyddwr yn falch i ddweud y cynhaliwyd trafodaethau gyda phenaethiaid ysgol ac y cytunwyd y byddai disgyblion Cyfnod Sylfaen ym Mlaenau Gwent yn cael dysgu wyneb i wyneb o 22 Chwefror.<br><br>Gofynnodd Aelod am eglurhad os byddai pob disgybl Cyfnod Sylfaen yn dychwelyd i'r ysgol ar yr un dyddiad.<br><br>Atebodd y Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiant mai ei ddealltwriaeth ef o'r cyfarfod gyda phenaethiaid ysgolion oedd y byddai'r holl ddisgyblion Cyfnod Sylfaen yn dychwelyd i'r ysgol ar yr un dyddiad, ond byddai'n gofyn am gadarnhad.<br><br>Holodd Aelod os yr hysbyswyd y Cyngor pryd y byddai'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru am gyfarpar diogelu personol ychwanegol ar gyfer ysgolion a gofynnodd am sicrwydd y gwerid yr arian hwn ar offer ychwanegol, oherwydd adroddiadau y gallai nifer achosion gynyddu pan mae ysgolion yn dychwelyd.<br><br>Byddai'r Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiant yn cysylltu â'r Rheolwr Trawsnewid Addysg i gadarnhau. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU – 15 RHAGFYR 2020</u>**<br><br>Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r ddalen weithredu. | |
| **No. 6** | **<u>PARODRWYDD AR GYFER Y DDEDDF ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiant a gyflwynwyd i roi diweddariad i'r Pwyllgor Craffu ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys (Cymru (2018) a chynnydd y Gyfarwyddiaeth Addysg i baratoi am hynny.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiant am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Nododd y Rheolwr Gwasanaeth y pwysau cost y cyfeirir ato yn yr adroddiad yng nghyswllt dyletswyddau statudol, fodd bynnag oherwydd ymdopi ag anawsterau rhedeg dwy system a'r capasiti | |

ychwanegol sydd ei angen o fewn y Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol, byddai'r pwysau cost yn nes at £100,000.

Llongyfarchodd y Cadeirydd y tîm am yr holl waith caled a'r cydweithio a fu.

Dywedodd Aelod ei fod yn croesawu'r adroddiad a gofynnodd am ddiweddariad gyda dadansoddiad o blant â datganiad, plant ADY, plant dyslecsig ac yn y blaen. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiant y gallai roi dadansoddiad o ddisgyblion sydd yn Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy sydd â datganiad a'u hanghenion sylfaenol ac yn cynnwys manylion am y sylfaen adnoddau er gwybodaeth Aelodau.

CYTUNODD y Pwyllgor ar y llwybr gweithredu hwn.

Yng nghyswllt y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n dod i rym ym mis Medi, soniodd Aelod am y gwaith rhagorol a wnaed a llongyfarch y Rheolwr Gwasanaeth a'r tîm am arwain ar y mater hwn.

Gofynnodd Aelod i waith rhagorol y swyddog a'r tîm ar arwain y darn hwn o waith gael ei gydnabod.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am drosglwyddo traws-ffin i ysgolion Cynradd ac Uwchradd a'r oedi gyda gwaith papur trosglwyddo ac os y byddai'r Ddeddf newydd yn helpu neu lesteirio hyn, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiant y teimlai'n gadarnhaol y byddai'r newidiadau o fudd sylweddol yn y maes hwnnw. Bu problemau gyda'r system bresennol, oedi gyda gwaith papur trosglwyddo ac yn y blaen a'r pump awdurdod yn dehongli'r meini prawf ar gamau gwahanol mewn ffyrdd hollol wahanol. Mae'r system newydd yn llai biwrocrataidd a byddai cyflwyno Cynllun Datblygu Unigol yn cymryd lle datganiadau. Un cynllun fyddai felly p'un ai oes lefel isel o anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion cymhleth sylweddol, yr un cynllun fyddai. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo yng nghyswllt cysondeb ar draws pob un o'r pump awdurdod lleol megis y math o lythyrau a anfonir at rieni ac yn y blaen. Gydag un cynllun yn ei le, ni fyddai mwyach ddehongliadau lluosog o'r gwahanol gamau a byddai hyn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r gwaith papur a dderbynnir yng nghyswllt deall anghenion disgyblion wrth drosglwyddo o un awdurdod lleol i un arall. Teimlai'r Rheolwr Gwasanaeth fod fframwaith Llywodraeth Cymru yn rhoi sylfaen dda i fynd i'r afael

| | | |
|---|---|---|
| | â'r problemau yn y system bresennol.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at broblemau capasiti a holodd pa fuddsoddiad y byddai'rr Gyfarwyddiaeth neu'r Cyngor yn ei wneud i oresgyn y problemau capasiti hyn i gyflawni argymhellion Estyn ar gyfer gwella. Gyda mater mor bwysig, teimlai fod angen sicrhau fod y capasiti priodol ar gael i gyflawni holl ofynion y Ddeddf. Atebodd y Cyfarwyddwr Addysg fod y Cyngor Llawn wedi cymeradwyo strwythur newydd ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Addysg a'i fod yn cydnabod yr angen am gapasiti yn nhermau gwella ysgolion a chynhwysiant. Fel rhan o broses gosod y gyllideb, gofynnwyd am eitem twf o £100,000 ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf a bydd hyn yn awr yn ffurfio rhan o'r trafodaethau am osod cyllideb y flwyddyn nesaf a chaiff ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth, ac os cytunir ar hynny bydd yn cyllido swydd statudol ychwanegol yn gysylltiedig â diwygio ADY. Mae'r mater yn flaenoriaeth a gwnaed cais hefyd i gefnogi'r capasiti ychwanegol sydd ei angen drwy'r cynnig twf.<br><br>Gofynnodd Aelod am eglurhad ar baragraff 2.9 yr adroddiad yng nghyswllt Cynlluniau Datblygu Unigol. Os oedd Cynllun Datblygu Unigol yn ei le, eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiant y byddai'r ysgol yn penderfynu os oedd yn gysurus i drin y disgybl gyda'r cyllid i gefnogi anghenion y disgybl. Gall fod trothwy sy'n dal i fod angen i Lywodraeth Cymru ei ddiffinio ac wedyn ei ddangos mewn ymarfer rhanbarthol a lleol i benderfynu ar ba bwynt y byddai cymhlethdod yr angen yn ddigon i'r awdurdod lleol wedyn gymryd cyfrifoldeb am y Cynllun hwnnw. Ar hyn o bryd awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am bob disgybl â datganiad a'r datganiad, fodd bynnag mae awdurdodau lleol yn dirprwyo'r cyfrifoldeb hwnnw i ysgolion yn nhermau trin yr adolygiad blynyddol a'r ddarpariaeth ac yn y blaen. Byddai'r system newydd yn dal i roi cyfle i ysgolion, os oes gan ddisgybl anghenion cymhleth sylweddol, i ofyn i'r disgybl gael Cynllun Datblygu Unigol gan yr awdurdod lleol. Mae'n dal i fod rhai problemau o amgylch y trothwy rhwng Cynllun Datblygu Unigol ysgol a Chynllun Datblygu Lleol awdurdod lleol.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth, unwaith y byddai'r Cod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi ei gwblhau, ei fod yn awyddus i roi cyfle i Aelodau gael esboniad mwy manwl a thrafodaeth am rai o'r meysydd allweddol tebyg i: beth yw ymarfer sy'n canoli ar y person, beth yw Cynllun Datblygu Unigol, beth yw trosiant Anghenion Dysgu Unigol ôl-16 ac yn y blaen, rywbryd yn y | |

dyfodol.

Cododd Aelod bryderon am yr ôl-groniad o ddisgyblion yn disgwyl i gael datganiad a holodd os byddai hyn yn effeithio ar yr adroddiad yn y dyfodol a chael ei weithredu ym mis Medi. Atebodd y Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiant fod angen i awdurdodau lleol gynnal asesiad statudol o fewn 26 wythnos. Mae ôl-groniad gan mai'r elfennau allweddol i asesiad statudol oedd: Seicolegydd Addysgol yn cynnal asesiad o anghenion disgybl, byddai angen gwneud hyn yn yr ysgol ac Iechyd yn paratoi adroddiad meddygol ar y disgybl sy'n golygu fod angen iddynt fynychu cyfarfod; ac oherwydd y cyfnod clo ni fu'n bosibl cyflawni a chwblhau asesiadau statudol. Fodd bynnag, o hyn ymlaen disgwyliad Llywodraeth Cymru oedd y byddai mwyafrif y Cynlluniau Datblygu Lleol yn seiliedig yn yr ysgol ac na fyddent angen mewnbwn yr awdurdod lleol. Byddai'n dal i fod yn ddogfen statudol gyda hawl cyfreithiol i apelio mewn tribiwnlys. Mae'r system newydd yn llai biwrocrataidd heb amserlenni maith. Os oes ysgol yn teimlo fod gan ddisgybl anghenion dysgu ychwanegol ac angen darpariaeth dysgu ychwanegol, maent mewn sefyllfa i sefydlu Cynllun Datblygu Unigol. Caiff y rhan fwyaf o'r Cynlluniau eu trin gan ysgolion heb fod angen mewnbwn gan awdurdodau lleol; byddai hyn yn cyflymu'r broses a lle teimlai ysgolion y dylai'r awdurdod lleol fabwysiadu'r Cynllun hwnnw, byddai hynny'n golygu cymryd perchnogaeth o'r Cynllun presennol. Mae'r Tîm yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad cyn gynted ag y gallant.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am y risgiau o golli dyddiad mis Medi, teimlai'r Rheolwr Gwasanaeth mai Covid-19 yw'r unig risg, nid oedd ganddo unrhyw bryderon am fod yn barod mewn pryd gan fod yr elfennau allweddol sylfaenol yn eu lle. Fodd bynnag, teimlai fel gyda phob system newydd, y gall fod rhai problemau cychwynnol ac y gall fod angen mireinio a gwella rhai elfennau o fis Medi ymlaen.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod Llywodraeth Cymru wedi cynghori Cyfarwyddwyr Addysg ledled Cymru y bwriedir cynnal trafodaeth ar ddiwygio ADY yn y sesiwn ddiwethaf cyn i'r Senedd dorri lan. Gan fod sefyllfa argyfwng ar hyn o bryd, gallai fod ystyriaethau cenedlaethol yn ymwneud â Covid-19 a allai gael blaenoriaeth ac felly gallai fod oedi posibl yn sgyrsiau terfynol Llywodraeth Cymru a chymeradwyo diwygio ADY.

Cyfeiriodd Aelod at faterion capasiti a dywedodd bod hynny'n un o

| | | |
|---|---|---|
| | argymhellion Estyn ar gyfer gwella a chynigiodd y dylai papur ar strwythur newydd y gwasanaeth ADY a sut y caiff ei ariannu gael ei baratoi a'i gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn, sef:<br><br>• Bod Aelodau yn cytuno y bydd Blaenau Gwent yn barod am ADY ym mis Medi 2021 pan ddaw'r Ddeddf ADY i rym a bod paratoadau addas ar y gweill; a<br>• Bod papur yn cael ei baratoi ar strwythur newydd y gwasanaeth ADY, i gynnwys manylion cyllid, a'i gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol. | |
| **No. 7** | **<u>CYNNYDD BAND B YSGOLION YR 21AIN GANRIF</u>**<br><br>**<u>CYNNYDD BAND B YSGOLION YR 21ain GANRIF</u>**<br><br>Yng nghyswllt datganiadau buddiant, nodwyd fod rhai Aelodau o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu hefyd yn llywodraethwyr ysgolion.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Trawsnewid Addysg a gyflwynwyd i roi cyfle i'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu graffu ar gynnydd yn unol â chyflenwi'r Rhaglen Band B.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Soniodd Aelod am y gwaith rhagorol a wnaed i ymestyn oes Ysgol Gyfun Tredegar gan 10-15 mlynedd, fodd bynnag teimlai y byddai adeiladau ysgolion eraill yn y Fwrdeistref yn wynebu'r un problemau yn y dyfodol. Cyfeiriodd at baragraff 2.4 yr adroddiad, amcan buddsoddiad 3 – i sefydlu rheolaeth a darpariaeth effeithlon o leoedd ysgol drwy gael yr ysgolion cywir yn y lleoedd cywir ar yr adeg gywir. Holodd os rhoddwyd ystyriaeth i'r 70 i 100 o ddisgyblion ychwanegol fyddai'n mynychu ysgolion yn Nhredegar dros y 5-6 mlynedd nesaf. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod adroddiadau blynyddol yn cael eu paratoi a'u cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu i edrych ar reolaeth lleoedd ysgol. Gwnaed llawer o waith yn y gorffennol i ostwng lleoedd gwag. Y sefyllfa bresennol yw fod tua 10% o leoedd gwag yn y sector uwchradd a chynradd. Mae argaeledd lleoedd, ar draws y stad ysgolion, yn cael ei fonitro'n agos. Mae rhai ysgolion yn awr yn cael problemau digonolrwydd a chaiff hyn ei ystyried o fewn trefniadau cynllunio | |

| | | |
|---|---|---|
| | Band B i sicrhau lleoedd digonol ar gyfer y galw sy'n dod drwy'r system. Dywedodd yr Aelod y dylid llongyfarch ar y tîm ar y gwaith ar raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y rhagolwg cyllid Band B ar gyfer y cynnig ysgol Gymraeg a holodd am y cyllid o £7.5 miliwn. Esboniodd y Cyfarwyddwr mai dyma'r amcangyfrif cost diweddaraf gan Gwasanaethau Technegol; byddai'r adeilad newydd oddeutu £7.5 miliwn a chaiff hyn ei ariannu 100% gan Lywodraeth Cymru. Roedd y Gyfarwyddiaeth wedi codi'r pwysau cost tebygol yn gysylltiedig gyda'r oedi oherwydd Covid-19 gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cael adborth cadarnhaol am y potensial ar gyfer adnoddau ychwanegol pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Nid oedd hyn yn bwysau cost i'r Cyngor, roedd yn un y byddai angen i Lywodraeth Cymru ei drin.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu wedi ystyried ac yn derbyn yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd. | |
| **No. 8** | **<u>ADRODDIAD PERFFORMIAD GWASANAETHAU IEUENCTID 2019 – 2020</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu ar waith y Gwasanaeth Ieuenctid, gan ddangos sut mae'r cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol o ddarparu Gwasanaeth Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed a Gwasanaeth Cwnsela ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo, sy'n cynnwys diweddariad byr ar sut mae'r gwasanaeth wedi ailffocysu yn ystod pandemig Covid-19.<br><br>Llongyfarchodd y Cadeirydd y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid a'r tîm ar yr holl waith a wnaethpwyd, yn arbennig yng nghyswllt y cymwysterau a enillwyd a'r gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dod yn NEET.<br><br>Dywedodd Aelod fod y Gwasanaethau Ieuenctid yn gwneud gwaith rhagorol yn yr amgylchiadau a chytunodd gyda sylwadau'r Cadeirydd ac ychwanegodd ei bod yn dda nodi rhan y Gwasanaethau Ieuenctid wrth gefnogi pobl ifanc i ennill | |

cymwysterau.

Cododd yr Aelod bryderon am ddiwedd cyllid yr Undeb Ewropeaidd a holodd os rhoddwyd ystyriaeth i ble i edrych am gyllid yn y dyfodol. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid fod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda gwahanol weithgorau i edrych ar gyllid yn dod o San Steffan i Gymru. Cynhelir trafodaethau gyda'r Gyfarwyddiaeth Adfywio a'r 10 awdurdod lleol ar draws Cymru fydd yn edrych am gyfleoedd i amlygu'r cyllid sydd ei angen a bod y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid hefyd yn cymryd rhan yn y trafodaethau hyn. Byddai cyllid yn dod i Gymru ond ar hyn o bryd mae'n aneglur sut y caiff y cyllid hwnnw ei flaenoriaethu. Teimlai ei bod yn bwysig cymryd rhan mewn trafodaethau rhanbarthol i gyflwyno'r ddadl am ba mor bwysig yw'r maes hwn o waith.

Yng nghyswllt colli cyllid o Gronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd yn gyffredinol, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod hyn yn risg gwirioneddol. Mae Cyfarwyddwyr Addysg yn y 10 ardal awdurdod lleol yn unol â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac mae posibilrwydd amlwg y byddai'n flaenoriaeth fel rhan o'r Gronfa Rhannu Ffyniant yn y dyfodol. Er na chafodd hyn ei gadarnhau eto, gwyddai'r Cyfarwyddwr fod eiriolaeth yn digwydd ar y lefelau uchaf. Roedd colli cyllid yr Undeb Ewropeaidd yn risg uchel ar Gofrestr y Gyfarwyddiaeth Addysg oherwydd y goblygiadau ar gyfer y Tîm Ieuenctid. Mae hefyd ar y Gofrestr Risg Corfforaethol.

Gan fod y Gwasanaeth Ieuenctid yn awr yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth Hamdden o fewn yr Adran, gofynnodd Aelod os oedd gan Reolwr y Gwasanaeth Ieuenctid y capasiti i ateb galw'r llwyth gwaith ychwanegol. Yng nghyswllt capasiti o fewn y Gwasanaethau Ieuenctid, atebodd y Cyfarwyddwr Addysg y bu ailstrwythuro a chafodd swydd newydd, Pobl Ifanc a Phartneriaethau, ei chymeradwyo sy'n cwmpasu'r swyddogaeth cleient hamdden o fewn Addysg. Byddai ailstrwythuro cam 2 fyddai'n galluogi capasiti i gefnogi'r Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid wrth drin ei phortffolio mawr o waith, gyda ffocws ar y bobl gywir gyda'r setiau sgiliau cywir i fedru rheoli'r Gwasanaethau Ieuenctid a hefyd y swyddogaeth cleient Hamdden.

Canmolodd Aelod arall yr adroddiad hefyd a theimlai fod y deilliannau dros y flwyddyn ddiwethaf gyda'r pandemig yn

| | | |
|---|---|---|
| | anhygoel, nid yn unig wrth gynnal y llwyddiant ond hyd yn oed ychwanegu ato.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef bod y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu wedi ystyried ac yn derbyn yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd. | |
| **No. 9** | **<u>Y DEFNYDD O YMGYNGHORWYR</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a gyflwynwyd i roi'r wybodaeth a ofynnwyd i Aelodau yn ymwneud â gwariant yn ystod 2018/2019 a 2019/2020 ar ddefnydd ymgynghorwyr i gefnogi, atodi ac ategu gwaith Swyddogion ar draws y Cyngor.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am yr adroddiad a rhoddodd drosolwg byr o'r prif bwyntiau ynddo.<br><br>Yng nghyswllt ffioedd ymgynghoriaeth ar gyfer Bryan Jeffreys, holodd Aelod am beth oedd y ffioedd ymgynghoriaeth. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg eu bod yn ymwneud â chefnogaeth rheoli ar gyfer dwy ysgol sydd mewn categori Estyn ac a ystyrid yn ysgolion yn achosi pryder a chadarnhaodd fod y trefniant yn awr wedi dod i ben. Eglurodd fod peth o'r amser yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer y Corff Llywodraethol ond bod elfennau eraill o gefnogaeth allanol a roddodd yr ymgynghorydd i'r Gyfarwyddiaeth Addysg ar ryw adeg.<br><br>Soniodd Aelod y cytunwyd y byddai'r eitem hon yn nodyn gwybodaeth i Aelodau. Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg y cytunwyd rhannu nodyn gwybodaeth gydag Aelodau, ond gan i'r cais gael ei gyflwyno'n gorfforaethol, roedd y Prif Swyddog Adnoddau wedi penderfynu ei bod yn briodol cynhyrchu adroddiad a fyddai'n mynd i bob Pwyllgor Craffu gyda'r gwariant perthnasol ar gyfer pob portffolio.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef nodi'r adroddiad ar y Defnydd o Ymgynghorwyr. | |
| **No. 10** | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH: 9 MAWRTH 2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymru, gan fod canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 bellach wedi eu cadarnhau, y byddai eitem 4 – Adroddiad Terfynol Perfformiad Ysgol yn cael ei amnewid gyda Llythyr Adolygiad Thematig Estyn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1: sef newid yr adroddiad terfynol ar Berfformiad Ysgolion gyda Llythyr Adolygiad Thematig Estyn ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 9 Mawrth 2021. | |